Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Yr ail adroddiad ar hugain i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Yr ail adroddiad ar hugain i'r Chwechedd Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................ 5**

**2. Ystyried y gŵyn ........................................ 6**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor ........................................ 7**

**4. Materion o Egwyddor Gyffredinol ........................................ 9**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a'r hyn a ystyriodd y Pwyllgor wrth lunio ei argymhelliad.

**4.** Mae'r Weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor wneud adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau yn ddienw mewn achosion lle dyfarnwyd bod cwyn yn dderbyniadwy ond na chanfuwyd unrhyw fethiant i gydymffurfio. Mewn achosion o'r fath, yn hytrach na chuddio gwybodaeth, mae'r Pwyllgor yn cynhyrchu crynodeb o'r rhannau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd ac ystyriaeth y Pwyllgor ohono.

**5.** Er gwaethaf canfyddiad y Pwyllgor nad oedd unrhyw achos o dorri'r Cod Ymddygiad wedi digwydd, yn ei sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor, gofynnodd Alun Davies AS i ildio ei hawl i fod yn anhysbys ac i'w enw gael ei gynnwys yn yr adroddiad cryno.

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**6.** Cafodd y Comisiynydd gŵyn am ddatganiadau a wnaed gan Alun Davies AS ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar lawr y Senedd, a oedd yn ymwneud â honiadau o fwlio ac o beidio â thalu staff mewn sefydliad penodol. Honnodd yr Achwynydd fod y datganiadau hyn yn ffug a bod yr Aelod wedi camgynrychioli rhai ffeithiau. Cyhuddodd yr achwynydd hefyd Alun Davies AS o fethu ag ymgysylltu'n adeiladol â'u pryderon.

**7.** Dywedodd y Comisiynydd yn ei adroddiad na wnaeth ymchwilio i'r gŵyn ynghylch methu ag ymgysylltu'n adeiladol gan nad yw'r Cod Ymddygiad yn gymwys ar gyfer "safon y gwasanaeth a'r canlyniadau a gafwyd gan Aelod"[4] ond roedd yn fodlon bod agweddau eraill ar y gŵyn yn dderbyniol.

**8.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 23 a 30 Mehefin 2025 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

**9.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**10.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i Alun Davies AS ac i'r Achwynydd.

[4] Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd, Rhan 1, paragraff 7(iii)

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**11.** Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd Alun Davies AS Reol Sefydlog 22.2(i).

**12.** Wrth drafod a fu achos o dorri’r Cod, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y’u nodir yn ei adroddiad.

**13.** Rhoddodd yr Aelod sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor, a ystyriwyd yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin.

**14.** Ar ôl edrych ar ffeithiau'r gŵyn, nododd y Comisiynydd yr honiadau a wnaed gan yr Achwynydd bod Alun Davies AS wedi honni'n anghywir nad oedd staff y sefydliad dan sylw wedi cael eu talu a'u bod wedi cael eu bwlio. Nodwyd hefyd bod yr Aelod yn derbyn ei fod wedi gwneud yr honiadau hyn, ond ei fod yn dadlau eu bod yn wir.

**15.** O ran gwneud datganiadau ffug, nododd y Comisiynydd yn ei adroddiad ei fod o'r farn nad oedd angen iddo benderfynu pa un o'r cyfrifon gwrthgyferbyniol hyn oedd yn gywir ac y byddai proses ymgyfreitha yn fwy priodol ar gyfer datrys materion o'r fath. Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud:

> *“… simply making an incorrect statement would not amount to a breach of the Honesty Principle in Rule 1 of the Code (duty to uphold the Overarching Principles) or Rule 2 (duty to act truthfully) or of any other relevant provision. As the Committee has found in relation to other complaints, dishonesty and untruthfulness both require a degree of moral turpitude and there is no evidence of it in this complaint.”*

**16.** Yn ôl asesiad y Comisiynydd:

> *“The Member based his assertions on what he had been told by at least two individuals whose credibility he had no reason to doubt. Further, the other assertions made by those who approached him were accurate and have been accepted by the Complainant. I am satisfied that the Member made adequate enquiries before making his assertions and that he had good reason to believe that they were accurate. I am not satisfied that the Member was untruthful or dishonest when he asserted that staff had not been paid and had been bullied.”*

**17.** Mewn perthynas â haeriad yr Achwynydd bod Alun Davies AS wedi camgynrychioli rhai ffeithiau ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am y contractau dan sylw drwy neges ar y cyfryngau cymdeithasol, canfu'r Comisiynydd:

> *"That assertion was plainly incorrect and should not have been made."*

**18.** Fodd bynnag, ddeuddydd yn ddiweddarach yn ystod Cyfarfod Llawn, gwnaeth Alun Davies AS ddatganiad a eglurodd ei fod yn priodoli ei farn i'r rhai sy'n gyfrifol am y contractau - ac nid y rhai y cyfeiriwyd atynt yn anghywir yn y neges ar y cyfryngau cymdeithasol.

**19.** Mewn perthynas â'r mater hwn, canfu'r Comisiynydd:

> *"Whilst the attribution in the post was incorrect, I am satisfied, given the very early and public correction made by the Member, that it did not amount to breach of any relevant provision."*

**20.** O ran y ffeithiau a nodwyd, daeth y Comisiynydd i'r casgliad a ganlyn:

> *"… the conduct complained of did not amount to a breach of any relevant provision."*

Ar ôl ystyried y wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

# 4. Materion o Egwyddor Gyffredinol

**21.** Mae'r Pwyllgor wedi nodi mewn nifer o adroddiadau yn ystod y Senedd hon bod nifer y cwynion sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r Pwyllgor yn edrych ar y mater hwn fel rhan o'i ymchwiliad ehangach i Atebolrwydd Aelodau Unigol[5], yn ogystal ag ystyried ffyrdd o gyflwyno proses ffurfiol i Aelodau gywiro'r cofnod mewn ffordd amserol a thryloyw. Rydym yn bwriadu gwneud cynigion yn y meysydd hyn cyn diwedd y Chweched Senedd.

**22.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl yr Aelodau i gynrychioli eu hetholwyr a chodi materion sy'n peri pryder ar eu rhan, fodd bynnag, mae'r mater yn yr adroddiad hwn yn gyfle defnyddiol i atgoffa Aelodau am yr angen i sicrhau cywirdeb ffeithiol wrth wneud datganiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

[5] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol